OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2537

## Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001

**Hysbysu Penderfyniadau**

**13.**—(1) Rhaid hysbysu'r ceisydd o unrhyw benderfyniad o dan reoliadau 6, 9 neu 12 uchod more fuan ag sy'n ymarferol wedi iddo gael ei wneud gan ddefnyddio post y mae dosbarthiad wedi'i gofnodi i'r cyfeiriad a ddangosir yn y cais am adolygiad.

(2) Yn achos penderfyniad o dan reoliad 12, rhaid hysbysu darganfyddiadau ac argymhellion y personau a benodwyd ynghyd â'r penderfyniad.